

CYFFES FFYDD

27. Am Sancteiddhad.

Y mae yr holl rai sydd yn cael eu huno â Christ, a'u cyfiawnhau trwy ei gyfiawnder ef, yn cael eu sancteiddio hefyd. Y maent yn derbyn rhinwedd o'i farwolaeth, ac o'i atgyfodiad ef, i'w marwhau i bechod, a'u bywhau i gyfiawnder (a). Y maent yn cael eu sancteiddio yn bersonol a gwirioneddol, nid yn gyfrifol (b). Y mae gair ac Ysbryd Duw yn preswyllo ynddynt (c), a llywodraeth " holl gorff pechod wedi cael ei ddinistrio, a'u hamrywiol chwantau yn cael eu marwhau a'u gwanhau o ddydd i ddydd (d), a phob gras yn cael ei gryfhau i bob ymarferiad sanctaidd; oblegid "heb sancteiddrwydd ni chaiff neb weled yr Arglwydd" (e). Y mae sancteiddhad yn cael ei ddwyn ymlaen trwy yr holl ddyn, eto yn amherffaith tra yn y bywyd hwn, oblegid y llygredd sydd yn aros hefyd yn mhob rhan o'r dyn (f). Oddi ar hyn y mae y rhyfel parhaus sydd rhwng y cnawd a'r ysbryd yn y saint yn cyfodi (g). Er bod y rhyfel yn parhau, a llygredd yn gryf lawn, ac yn clwyfo y saint yn fynych, eto trwy eiriolaeth Crist drostynt, a chymorth adnewyddol Ysbryd y gras, cryfheir y dduwiol anian nes gorchfygu (h). Cynyddant mewn gras gan berffeithio sancteiddrwydd yn ofn Duw; gorffennir y gwaith da a ddechreuwyd ynddynt (i); yna byddant heb frycheuyn, na chrychni, na dim o'r cyfryw (j).

27. Of Sanctification.

All those who are united to Christ and justified through his righteousness are also sanctified. They receive virtue from his death, and from his resurrection, that they may be mortified to sin, and quickened to righteousness (a). Their sanctification is personal and real, not imputative (b). The word and the Spirit of God dwell in them (c); the dominion of the whole body of sin has been destroyed; their several lusts are mortified and weakened from day to day (d); and every grace is strengthened for every holy exercise; for “without holiness no man shall see the Lord” (e). Sanctification is carried on throughout the whole man, yet is imperfect in this life, by reason of the corruption that also remains in every part (f). Hence arises the continual warfare in the saints between the flesh and the spirit (g). Though the warfare continues and corruption is exceeding strong, and the saints are oftentimes sorely wounded, yet through the intercession of Christ on their behalf, and the renewal of strength from the Spirit of grace, the regenerate nature is strengthened until it overcomes (h). They grow in grace, perfecting holiness in the fear of God; the good work begun in them will be finished (i). Then shall they be without spot or wrinkle, or any such thing (j).

(a) 1 Cor. 6:11; Actau/Acts 20:32; Rhuf./Rom. 6:4, 6.

(b) Heb. 12:14; 2 Cor. 7:1; Gal. 5:24; Rhuf./Rom. 8:13; 1 Pedr/1 Peter 1:15-16.

(c) Ioan/John 17:17; 2 Thes. 2:13; Eff./Eph. 3:16-19, 5:26.

(d) Rhuf./Rom. 6:6,14, 8:13 gwêl/see (b); Col. 3:2-3, 5; 1 Pedr/1 Peter 4:2.

(e) Salm/Psa. 51:6-10; 1 Pedr/1 Peter 2:2; Eff./Eph. 4:24.

(f) 1 Thes. 5:23; 1 Cor. 6:19-20; Rhuf./Rom. 6:13, 7:18,23; 1 Ioan/1 John 1:8; Phil. 3:12.

(g) 1 Pedr/1 Peter 2:11; Gal. 5:17; Rhuf./Rom. 7:23 gwêl/see (f); Iago/James 1:14.

(h) Rhuf./Rom. 6:14; 1 Ioan/1 John 5:4; 2 Pedr/2 Peter 1:4-8; Phil. 1:6; Heb. 12:1-2.

(i) 2 Pedr/2 Peter 3:18; 2 Cor. 3:18, 7:1 gwêl/see (b); Diar./Prov. 4:18; Phil. 1:6 gwêl/see (h).

(j) Eff./Eph. 1:4, 5:26-27; Dat./Rev. 7:14.